AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

In Focus
Haf 2024 - Rhifyn 26

# Cylchlythyr yr Haf AWTTC

**Diweddariad chwarterol ar y newyddion, cyhoeddiadau ac adnoddau diweddaraf.**

## Yn y rhifyn hwn
## Newyddion Ebrill - Mehefin 2024 gan:

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR.
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Lansio Strategaeth newydd pum mlynedd AWMSG

Mae AWTTC yn hapus iawn i gyhoeddi bod Strategaeth pum mlynedd ddiweddaraf Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), sy'n nodi ei uchelgeisiau a'i nodau ar gyfer 2024 i 2029, wedi'i lansio a'i bod bellach ar gael i chi ei darllen.

Darllenwch ragor yma



AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cyhoeddi monograff y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin ar gyfer haint y llwybr wrinol

Mae llyfr fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan wedi'i ddiweddaru gyda monograff ar gyfer haint y llwybr wrinol mewn menywod a dynion trawsryweddol nad ydynt wedi cael llawdriniaeth ailbennu rhyw.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Newyddion diweddaraf gan Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG

Ym mis Mai cynhaliwyd cyfarfod diddorol ac addysgiadol arall, gyda chyflwyniadau yn cynnwys 'Cael y label yn iawn - a oes gennych alergedd gwirioneddol i benisilin?' a 'Mynd i'r afael ag ymwrthedd i wrthfiotigau – beth allwn ni i gyd ei wneud i helpu?'. Roedd diweddariadau hefyd ar rai taflenni gwybodaeth i gleifion sy'n cael eu datblygu, Canolfan Cerdyn Melyn Cymru, a'r broses mynediad at feddyginiaethau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar-lein ar 12 Medi ac mae croeso i bawb.

Gwyliwch nhw yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cynnal sesiwn Dysgu dros Ginio lwyddiannus arall

Cynhaliwyd sesiwn Dysgu dros Ginio 1 awr ar-lein ar 21 Mai gyda sesiynau yn ymdrin â sut i weithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o gyffuriau gwrthseicotig ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru, adnoddau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o feddyginiaethau a rheoli meddyginiaethau'n ddiogel mewn cartrefi gofal, yn ogystal â diweddariad therapiwteg cyflym ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol. Cofrestrwch ar gyfer sesiynau yn y dyfodol yma.

Recordiadau ar gael yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnod Arfer Gorau 2024

Roedd digwyddiad eleni yn canolbwyntio ar ymlyniad wrth feddyginiaethau gyda rhai siaradwyr gwych gan gynnwys Dr Sarah Brown, Dr Julian Treadwell a Dr Sarah Chapman ac yna prynhawn o sesiynau grŵp rhyngweithiol, ochr yn ochr â digon o gyfleoedd i rwydweithio a dal i fyny â chydweithwyr o bob rhan o Gymru.

Gall darllenwyr fynd i'r dudalen hon i gael mynediad at sleidiau a recordiadau o'r cyflwyniadau wrth iddynt ddod ar gael.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn cyflwyno gwaith yng nghyfarfod blynyddol HTAi yn Seville

Bu cydweithwyr o Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) yn mynychu ac yn cyflwyno eu gwaith yng Nghyfarfod Blynyddol Asesiad Technoleg Iechyd Rhyngwladol (HTAi) eleni.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWTTC yn cynnal gweithdy IPFR blynyddol llwyddiannus arall

Mae'r gweithdy blynyddol yn ddigwyddiad hyfforddi i aelodau panel IPFR, cydweithwyr y bwrdd iechyd sy'n ymwneud â chyflwyno'r broses IPFR a chlinigwyr sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am IPFR.

Read more here

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Animeiddiad newydd AWTTC sydd â'r nod o wella rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru

Mae'r animeiddiad, a fydd yn cael ei rannu'n eang o fewn GIG Cymru, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac yn annog pobl i ofyn am adolygiad anadlol blynyddol.

Darllenwch ragor yma



PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Meddyginiaethau Cymru'n Un wedi'u henwebu ar gyfer gwobrau Moondance

Roedd Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) wrth ei bodd bod proses Meddyginiaethau Cymru'n Un (OW) wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau mawreddog Canser Moondance.

Mae Gwobrau Canser Moondance, yr unig wobrau yng Nghymru sy'n benodol i ganser, yn dathlu ac yn tynnu sylw at unigolion a thimau ar draws GIG Cymru a'i bartneriaid sy'n darparu, yn arwain ac yn arloesi ym maes gwasanaethau canser.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor newydd ar feddyginiaethau i GIG Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer tair meddyginiaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2024.

- alglucosidase alfa (Myozyme™) – Darllenwch ragor yma
- Opicapone (Ongentys®) – Darllenwch ragor yma
- Trifarotene (Aklief®) – Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## GIG Cymru yn cymeradwyo mynediad rheolaidd i dabrafenib a trametinib i drin math prin o ganser y thyroid

Mae Grŵp Cynghori Cymru'n Un ar Feddyginiaethau (OWMAG) wedi argymell defnyddio dabrafenib a trametinib gyda'i gilydd i drin canser thyroid anaplastig os oes ganddo amrywiolyn genetig penodol o'r enw BRAF V600E. Cymeradwyodd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan y penderfyniad a chafodd ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2023–2024: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Rhagfyr 2023

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, wedi'i gyhoeddi.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Teithiodd WNPU i Mongolia i gymryd rhan mewn menter hyfforddi

Gwnaeth Eleri Thomas, Arbenigwr Gwybodaeth am Wenwynau, weithio ochr yn ochr â sawl aelod o dîm Prosiect 87 PRECA (Bod yn Barod ac Ymateb i Ddigwyddiadau Torfol a Bygythiadau Iechyd eraill yng Nghanolbarth Asia) mewn menter hyfforddi a weithredwyd gan y Ganolfan Gwyddoniaeth a Thechnoleg Ryngwladol (ISTC).

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cyngress 44ain Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol (EAPCCT)

Rhoddwyd cyflwyniadau llafar gan Eleri Thomas ar ei hastudiaeth i amlygiadau paracetamol bwriadol mewn plant a Nathaniel Keymer ar achosion o weinyddu mewnfasgwlaidd damweiniol o hydoddiant glanhau clwyfau. Roedd yr uned hefyd yn cyflwyno 4 posteri.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cwrs Tocsicoleg Feddygol 2024

Bydd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU) yn cynnal eu cwrs Tocsicoleg Feddygol blynyddol yng Ngwesty Leonardo yng Nghaerdydd ar 4-5 Hydref 2024. Mae'r digwyddiad ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am docsicoleg feddygol.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Digwyddiad DPP y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol

Cyfarfu'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) ym mis Ebrill ar gyfer digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus deuddydd a gynhaliwyd gan Uned Gwenwynau Birmingham yng Ngwesty Park Regis, Birmingham.

Darllenwch ragor yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cyflwynodd NPIS boster haniaethol i Gyfarfod Gwanwyn Cymdeithas Geriatreg Prydain 2024

Teitl y crynodeb oedd "Defnyddio data'r ganolfan wenwynau i nodi risgiau diogelwch posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau monitro dos." Roedd hwn yn gydweithrediad rhwng NPIS y DU, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac AWTTC yn dilyn trafodaeth gydag aelodau o bob sefydliad ar ôl cyfarfod yn Niwrnod Arfer Gorau AWTTC yn 2023.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

## Diwrnod Diogelwch Meddyginiaethau Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2024

Roedd yn ddiwrnod gwych o gydweithio a dysgu yn Niwrnod Diogelwch Meddyginiaethau blynyddol Canolfan Cerdyn Melyn Cymru.

Roedd y digwyddiad hefyd yn nodi 60 mlynedd ers derbyn y Cerdyn Melyn cyntaf ym 1964 yn dilyn trychineb thalidomid.

Darllenwch ragor yma







Yellowcard Centre Wales

## Adnoddau AaGIC

Mae tîm YCC Cymru wedi gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu adnodd addysgol, gan gynnwys cyfres o fideos byr.
Nod yr adnodd hwn yw cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddysgu mwy am adweithiau niweidiol i gyffuriau a phwysigrwydd cynllun y Cerdyn Melyn.

Lansiwyd y dudalen we hon yn Niwrnod Diogelwch Meddyginiaethau Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2024 a bydd yn cael ei hyrwyddo'n eang i gefnogi'r ymgyrch #WythnosDiogelwchMeddyginiaethau sydd ar ddod.

Darllenwch ragor yma

